LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# Llais Rhanbarth Gwent – Adroddiad ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent.

Mai 2026



I hysbysu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent am faterion sy'n peri pryder ar hyn o bryd, ac arsylwadau cadarnhaol, neu atborth y cyhoedd y mae Llais Rhanbarthol Gwent yn mynd i'r afael â nhw mewn perthynas â chynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

# Fformatau hygyrch

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

Cysylltwch â ni os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat ac/neu iaith arall.

Gallwch ei lawrlwytho oddi ar ein gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa.


01633 838516

gwentenquiries@llaiscymru.org

Llais Rhanbarth Gwent,

Tŷ Raglan,

Clôs William Brown

Cwmbrân

NP44 3AB

www.llaiswales.org

www.llaiscymru.org

Ynglŷn â Llais 4

Cyflwyniad 5

Ein Ffocws Strategol 2026-27 6

Mewnwelediadau ac ymgysylltiadau lleol ‘Gwent’ 7

Gwasanaethau Eiriolaeth Gwent 7

Gweithredu Rheoliadau “Gwrando ar Bobl” 7

Gofal Brys Yr Un Diwrnod 8

Ymatebion i Adroddiad Llais: Sbotolau ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gwledig 8

Criw Llais – Plant a Phobl Ifanc 11

Dal Ati Gyda’i Gilydd: Gofalwyr yn Siarad am eu Taith 12

Chwalu Rhwystrau: Parhau i Ddysgu gan Leisiau Byddar 14

# Ynglŷn â Llais

Credwn mewn Cymru iachach, lle mae pobl yn cael y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnynt, yn y ffordd sy'n gweithio orau iddynt.

Rydym yma i ddeall eich barn a'ch profiadau o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio eich atborth i lunio eich gwasanaethau.

Rydym yn chwilio am straeon da a drwg, fel ein bod yn deall yr hyn sy'n gweithio'n dda a sut y gallai fod angen i wasanaethau wella.  Ac rydym yn edrych yn benodol i siarad â'r rhai na chlywir eu lleisiau'n aml.

Rydym hefyd yn siarad â phobl am eu barn a'u profiadau, trwy gynnal digwyddiadau yn eich cymunedau lleol neu ymweld â chi lle bynnag yr ydych yn derbyn eich gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol.

Rydym hefyd yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a grwpiau â diddordeb, ac yn unol â mentrau cenedlaethol, i gasglu barn pobl.

A phan fydd pethau'n mynd o chwith, rydym yn eich cynorthwyo i wneud cwyn.

Ceir 7 Rhanbarth Llais yng Nghymru. Mae pob un yn cynrychioli llais "y claf a'r cyhoedd" mewn gwahanol rannau o Gymru.



# Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent am faterion sy’n peri pryder ar hyn o bryd, arsylwadau cadarnhaol, ac atborth y cyhoedd y mae Llais Rhanbarth Gwent yn mynd i’r afael â nhw mewn perthynas â chynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Llais yn parhau i weithio ar ymgysylltu â’r boblogaeth, craffu, a chynnig her annibynnol i’r GIG a Gofal Cymdeithasol, i fonitro ac ystyried newidiadau i wasanaethau arferol a brys. Rydym hefyd yn parhau i ddarparu Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion annibynnol.

# Ein Ffocws Strategol 2026-27

Byddwn yn parhau i weithio i gyflawni'r 5 blaenoriaeth a nodwyd yn ein Cynllun Strategol:

1) Ysgogi sgwrs genedlaethol am ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
2) Gwthio am wasanaethau sy'n diwallu anghenion pawb.
3) Cydweithio'n well.
4) Helpu pobl a gwasanaethau i ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw.
5) Tyfu a gwella fel sefydliad.

Eleni, byddwn yn canolbwyntio ar[1]:

- Ymgysylltu'n effeithiol â phobl mewn cymunedau ag iechyd a lles gwaeth, a phlant a phobl ifanc.
- Dysgu o gwynion a phrofiadau bywyd, i wneud sylwadau ystyrlon sy'n arwain at newid cadarnhaol.
- Dangos newid trwy ddilyn i fyny ac adrodd.
- Ymgorffori Egwyddorion y Bobl fel safon atebolrwydd cyhoeddus a ddefnyddir i fframio'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio, eu dylunio a'u darparu.

Ochr yn ochr â'r blaenoriaethau hyn, byddwn yn parhau i gyflawni ein swyddogaethau statudol craidd a'n gwaith beunyddiol, gan wrando ar bobl ledled Cymru.  Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo pobl i gael eu lleisiau wedi'u clywed, drwy ein gwasanaethau eiriolaeth cwynion ac ymholiadau, casglu mewnwelediad drwy ymgysylltu a phrofiadau bywyd, a gweithio gyda phartneriaid a chymunedau i sicrhau bod barn pobl yn llywio penderfyniadau am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn dal i fod yn sail i'n holl waith.  Byddwn yn cyflawni'r ymrwymiadau a nodwyd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, fel nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl, a bod lleisiau pobl nas clywir eu profiadau'n aml yn cael eu hadlewyrchu yn ein hymgysylltiad, ein mewnwelediad a'n dylanwad.

[1] https://www.llaiswales.org/news-and-reports/reports/llais-annual-plan-2026-2027

## Mewnwelediadau ac ymgysylltu lleol:

### Gwasanaeth Eiriolaeth Gwent

Cysylltwyd â'r gwasanaeth 138 o weithiau rhwng mis Mawrth a mis Ebrill. Roedd 63 yn bryderon ffurfiol, ac roedd 75 yn ymholiadau a oedd yn galw am ddatrysiad cynnar neu le'r ydym yn aros am ganiatâd.

O'r 138 o gysylltiadau, mae 31 bellach wedi'u datrys ac mae 107 yn dal yn weithredol.




**Arsylwadau Allweddol:**

- **Gwasanaethau Meddyg Teulu:** 34 o gysylltiadau yn amlygu pryderon fel atgyfeiriadau a gollwyd neu heb eu hanfon, methu rhoi diagnosis, ymddygiad staff a Meddygon Teulu, diffyg gofal a chefnogaeth, a phrinder apwyntiadau ar gael.
- **Gwasanaethau Gofal Eilaidd**: 49 o gysylltiadau yn codi problemau, gan gynnwys methu rhoi diagnosis, amseroedd aros hir, cleifion yn cael eu tynnu oddi ar restrau aros drwy gamgymeriad, diffyg dilyniant, atgyfeiriadau heb eu hanfon, argaeledd gwelyau ac apwyntiadau'n cael eu canslo.

- **Iechyd Meddwl**: 16 o gysylltiadau'n codi pryderon am oedi hir cyn cael diagnosis, atgyfeiriadau heb eu hanfon, mynediad at feddyginiaeth ADHD, a methu â chael mynediad at gymorth a chefnogaeth.

## - Gweithredu Rheoliadau "Gwrando ar Bobl"

Ers cyflwyno rheoliadau Gwrando ar Bobl (LTP) ar 1 Ebrill 2026, mae Llais wedi sefydlu perthynas waith gadarnhaol ac agored, i rannu dysgu cynnar, egluro disgwyliadau, a sicrhau bod cleifion yn cael cynnig cymorth eiriolaeth yn gynnar.

Mae ymrwymiad cilyddol clir i gadw'r person wrth wraidd popeth, gan sicrhau bod unigolion yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, eu cefnogi, a'u bod yn gallu archwilio eu pryderon mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion.

Mae Llais wedi codi pryderon yn Genedlaethol ynghylch ymgysylltu a gweithredu Gwrando ar Bobl ar draws darparwyr Gofal Sylfaenol.

## Ymgysylltu a Mewnwelediadau:

## Gofal Brys Yr Un Diwrnod

Yn dilyn ein hadroddiad ym mis Mawrth 2026 a'r esgoli dilynol, mae diweddariad ffurfiol i ddod gan y Bwrdd Iechyd ar eu Cynllun Gofal Brys ac Argyfwng, gan gynnwys ffrydiau gwaith sy'n adolygu'r Llwybr Pobl Hŷn a'r model Meddygol Aciwt.

## Ymatebion i Adroddiad Llais: Sbotolau ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gwledig

Yn ddiweddar, mae Llais wedi cyhoeddi adroddiad Sbotolau ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gwledig, yn seiliedig ar yr hyn a glywsom drwy ymgysylltu â phobl mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru.  Gallwch ddarllen yr adroddiad yn llawn.

Fel rhan o'r gwaith hwn, cyflwynwyd sylwadau ffurfiol i BIPAB ac Awdurdodau Lleol Gwent, ac mae'r adran ganlynol yn amlinellu eu hymateb.

1. **Mae pobl eisiau i ddulliau gwledig llwyddiannus o bob cwr o Gymru i gael eu hehangu, gan sicrhau bod y gefnogaeth yn**

**hyblyg, wedi'i gwreiddio'n lleol, ac wedi'i gyrru gan y gymuned.**

Ar draws Gwent (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen), mae arfer gorau eisoes yn cael ei rannu drwy fforymau rhanbarthol, gan gynnwys Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent (RPB), y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth. Mae dysgu cenedlaethol hefyd yn cael ei gyfnewid drwy Gymunedau Ymarfer Llywodraeth Cymru.

Bydd BIPAB ac Awdurdodau Lleol yn parhau i ehangu modelau integredig, yn seiliedig ar leoedd, sy'n gweithio'n dda – megis Hybiau Cymunedol Integredig, Gartref yn Gyntaf, a llwybrau iechyd a gofal cymdeithasol cryfach.

2. **Mae pobl eisiau gwasanaethau lleol sy'n canolbwyntio ar atal, wedi'u llunio mewn partneriaeth â chymunedau.**

Mae partneriaid Gwent yn parhau i wella rhannu gwybodaeth drwy gylchlythyrau, digwyddiadau, fforymau a llwyfannau digidol, gan sicrhau bod llais y dinesydd yn ganolog i gynllunio. Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent yn defnyddio model cyd-gynhyrchu, gyda chefnogaeth Rhwydwaith Dinasyddion Gwent, i sicrhau bod profiadau bywyd yn llywio datblygiad gwasanaethau. Mae'r rhwydwaith yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, i gryfhau ei effeithiolrwydd.

Mae ymgysylltu ar draws y rhanbarth yn defnyddio dulliau cymysg; sesiynau cymunedol, arolygon, fforymau ar-lein ac wyneb yn wyneb, i gyrraedd grwpiau amrywiol.

Bydd partneriaid yn sicrhau bod anghenion gwledig yn parhau i fod yn ganolog i gynllunio, a byddant yn cryfhau cydweithio â rhwydweithiau gwledig lleol, mudiadau'r trydydd sector a Llais, i gynnal ymgysylltiad cynhwysol a chynrychioliadol.

3. **Mae pobl eisiau gwasanaethau cydgysylltiedig**

Mae partneriaid Gwent wedi ymrwymo i gryfhau integreiddio drwy fyrddau rhanbarthol, gan alinio dogfennau cynllunio strategol allweddol, fel yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, y Cynllun Ardal ac Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad.

Mae gwaith cenedlaethol ar y System Gofal Cymunedol Integredig (ICCS), dan arweiniad "Cymru Iachach" Llywodraeth Cymru, yn anelu at gefnogi gofal mwy cydgysylltiedig, sy'n seiliedig ar leoedd. Mae

modelau lleol, fel Rhwydweithiau Llesiant Integredig, Cysylltwyr Cymunedol a gweithwyr cyswllt, yn ategu'r dull hwn.

Mae trawsnewid digidol yn parhau i fod yn alluogwr allweddol, gyda gwaith ar y gweill i wella rhannu data a symleiddio prosesau ar draws y rhanbarth.

Bydd BIPAB ac Awdurdodau Lleol yn parhau i ehangu modelau integredig profedig, a sicrhau bod cymorth yn parhau i fod yn hyblyg ac yn hygyrch, gan gynnwys ar gyfer cymunedau gwledig.

4. **Mae pobl eisiau mwy o gefnogaeth i fudiadau cymunedol sy'n chwarae rhan hanfodol, ond sy'n wynebu ansefydlogrwydd oherwydd cyllid tymor byr.**

Mae partneriaid Gwent yn gwerthfawrogi cyfraniad y sector ac yn parhau i godi pryderon ynghylch cyllid ar lefel leol a chenedlaethol. Mae gwaith ar y gweill i gryfhau Fforwm Trydydd Sector Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent, ac ehangu rôl y sector mewn ymyrraeth gynnar, atal a chymorth cymunedol.

Mae ymarfer mapio cynhwysfawr ar waith i ddeall ystod lawn darpariaeth y trydydd sector, boed wedi'i ariannu gan y RIF, wedi'i gontractio neu'i brynu yn ôl y galw, er mwyn llywio cynllunio yn y dyfodol.

Mae adroddiad Llais i'w groesawu fel atgof amserol o anghenion cymunedau gwledig yng Ngwent i gefnogi Cynllunio Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y dyfodol.

5. **Rhannodd pobl faterion iaith, yn enwedig gofal iechyd meddwl a dementia, ac mae pobl eisiau gwasanaethau yn yr iaith maen nhw fwyaf cyfforddus ynddi.**

Mae Awdurdodau Lleol ledled Gwent yn mynd ati i hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog trwy'r Cynnig Gweithredol, gan gynnwys gohebiaeth, gwasanaethau ffôn, cymorth blynyddoedd cynnar a deunyddiau cyfrwng Cymraeg. Mae polisïau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gofal a gomisiynwyd i gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Caiff cydymffurfiaeth ei monitro trwy archwiliadau rheolaidd a chydweithio â sefydliadau iaith Gymraeg.

Mae BIPAB hefyd yn darparu Cynnig Gweithredol, gyda staff yn arddangos bathodynnau "Cymraeg Gwaith" ac yn blaenoriaethu gofal

cyfrwng Cymraeg lle mae iaith yn angen clinigol, megis mewn gwasanaethau iechyd meddwl, dementia a strôc.

Bydd Awdurdodau Iechyd ac Awdurdodau Lleol yn parhau i hyrwyddo gallu iaith Gymraeg fel rhan o gynllunio gweithlu rhanbarthol.

## - Plant a Phobl Ifanc

Mae Criw Llais yn rhan o deulu brand ehangach Llais, a gynlluniwyd i gysylltu'n benodol â phlant a phobl ifanc, trwy gyfathrebu bywiog a deniadol yn weledol. Mae'r dull newydd hwn yn cryfhau sut rydym yn cyrraedd ac yn cynnwys cynulleidfaoedd iau, gan sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u grymuso i rannu eu profiadau.

Yn ystod mis Ebrill, fe wnaethom gyflwyno'r dull hwn trwy weithgarwch ymgysylltu parhaus ledled Gwent, gyda ffocws penodol ar glywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc am eu profiadau o gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.  Fel rhan o'r gwaith hwn, mynychwyd pum digwyddiad iechyd a lles mewn colegau, gan siarad â 675 o bobl ifanc.

Mae'r ymgysylltu hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i sicrhau bod barn plant a phobl ifanc – yn enwedig y rhai na chlywir eu lleisiau'n aml, yn cael ei chasglu, ei deall a'i defnyddio i lywio cynllunio gwasanaethau, gwelliannau a gwneud penderfyniadau.

**Themâu Allweddol gan Bobl Ifanc:**

<u>Mynediad at wasanaethau</u>

- Amseroedd aros hir am apwyntiadau Meddyg Teulu
- Anhawster deall pa wasanaethau iechyd a gofal sy'n bodoli, a sut i gael mynediad atynt pan fydd eu hangen arnynt
- Galwyd am fynediad symlach a mwy hyblyg at ofal iechyd, gan gynnwys bwcio ar-lein, opsiynau ar yr un diwrnod, gwasanaethau neges destun, a chyfeirio clir
- Mynediad at ofal deintyddol.



CEFNOGOL



SUPPORTING

Penderfynyddion iechyd ehangach

- Pryder am bwysau ariannol
- Gorbryder am iechyd a gofal aelodau'r teulu.

GWRANDO



LISTENING

Teimlo y gwrandewir arnynt

Neges a gododd dro ar ôl tro oedd pwysigrwydd teimlo eu bod yn cael eu credu, y gwrandewir arnynt, a'u bod yn cael eu parchu. Rhannodd pobl ifanc, os bydd pryderon yn cael eu diystyru neu'u hoedi, y gallent gael eu hymwahanu oddi wrth wasanaethau yn gyfan gwbl.

GRYMUSO



EMPOWERING

Iechyd meddwl a lles

- Arosiadau hir am Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
- Heriau wrth lywio cymorth iechyd meddwl.

**Bydd Llais yn…**

Treialu dull ysgol gyfan i glywed lleisiau uwch a chryfach gan blant a phobl ifanc.

## - Dal Ati Gyda'i Gilydd: Gofalwyr Yn Siarad Am Eu Taith

Fe wnaethom ymgysylltu â gofalwyr ledled Gwent, i ddeall eu profiadau o gynorthwyo aelodau'r teulu ac anwyliaid i gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig mewn perthynas â dementia, strôc, a chyflyrau hirdymor.

Mae canfyddiadau'r ymgysylltu hwn wedi'u nodi yn ein hadroddiad.

**Yr Hyn A Wnaethom**

Fe wnaethom ymgysylltu â gofalwyr trwy sgyrsiau yn y gymuned, dros sawl mis, gan gynnwys ymweliadau â grwpiau lleol a thrafodaethau gyda

gofalwyr a theuluoedd sy'n byw gyda dementia. Fe wnaethom wrando hefyd ar brofiadau gofalwyr yn dilyn diagnosis, rhyddhau o'r ysbyty, a newidiadau yn y ddarpariaeth gwasanaethau. Roedd y dull hwn yn galluogi trafodaeth agored mewn lleoliadau cyfarwydd, ac yn lleihau rhwystrau i gyfranogi, gan ganiatáu i ni glywed yn uniongyrchol gan ofalwyr â phrofiad bywyd, ochr yn ochr â mewnwelediadau gan sefydliadau sy'n cefnogi gofalwyr ledled Gwent.

Ochr yn ochr â gwaith lleol, fe wnaethom gyfrannu ar lefel genedlaethol, drwy ymateb i Strategaeth Genedlaethol Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofalwyr Di-dâl 2026. Tynnodd ein hymateb ar yr hyn a ddywedodd gofalwyr wrthym yn lleol ac yn genedlaethol, drwy weithgarwch ymgysylltu ac eiriolaeth cwynion, gan sicrhau bod profiadau bywyd yn llywio datblygiad polisi cenedlaethol yn uniongyrchol.

### Arfer Da a Nodwyd

Rhannodd gofalwyr enghreifftiau o arfer cadarnhaol, lle'r oedd gwasanaethau'n flaenweithgar, yn dosturiol, ac yn gyfathrebol. Fe wnaeth rhai ddisgrifio perthnasoedd cefnogol â chlinigau cof, gwasanaethau therapi, a thimau cymunedol, yn enwedig lle'r oedd gofalwyr wedi'u cynnwys mewn trafodaethau ac yn teimlo y gwrandawyd arnynt.

Lle cynigwyd cyswllt dilynol, megis pwyntiau cyswllt clir neu alwadau i weld sut mae rhywun, roedd gofalwyr yn teimlo'n fwy tawel eu meddwl ac yn llai ynysig. Cydnabuwyd bod gwaith partneriaeth gyda mudiadau gwirfoddol a chymunedol yn ffynhonnell bwysig o gefnogaeth emosiynol ac ymarferol.

### Themâu Allweddol

Yn aml, disgrifiodd gofalwyr eu bod yn teimlo wedi'u llethu, yn anweledig, bron cyrraedd pen eu tennyn, ac yn aml yn amharod i geisio cymorth oherwydd ansicrwydd ynghylch pa gymorth sydd ar gael, neu ddim eisiau bod yn faich ar eraill.

Rhannodd nifer fawr fod derbyn llawer iawn o wybodaeth ar adeg y diagnosis yn teimlo'n llethol, gydag angen clir am wybodaeth gam wrth gam ac apwyntiad dilynol strwythuredig, ar ôl cael amser i brosesu'r hyn oedd yn digwydd.

Thema gref oedd pwysigrwydd gwrando ar ofalwyr a'u cydnabod fel partneriaid mewn gofal, yn enwedig yn ystod apwyntiadau, cyfnodau

pontio, a chynllunio i ryddhau. Codwyd anawsterau hefyd o ran cael mynediad at ofal seibiant, gwasanaethau dydd, a chymorth ymarferol, gyda gofalwyr yn tynnu sylw at anghysondebau ar draws ardaloedd ac effaith gronnus gofalu ar eu hiechyd a'u lles eu hunain.

**Bydd Llais yn…**

Parhau i godi llais gofalwyr yn lleol ac yn genedlaethol, gan sicrhau bod eu profiadau'n llywio polisïau a darpariaeth gwasanaethau. Byddwn yn adeiladu ar yr ymatebion a dderbyniwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a phartneriaid Awdurdodau Lleol, ac yn parhau i ddefnyddio ymgysylltu a chydweithio i hyrwyddo cymorth mwy cyson a hygyrch i ofalwyr di-dâl ledled Gwent.

## - Chwalu Rhwystrau: Parhau i Ddysgu gan Leisiau Byddar

Mae Llais wedi parhau i weithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB), RNID, Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, Byddardod Ymlaen Cymru, a SENSE, i sicrhau bod y rhaglen waith hon yn parhau i gael ei llywio gan brofiadau bywyd a gwybodaeth arbenigol pobl Fyddar.

Mae pryderon a godwyd trwy ymgysylltu, a'r Panel Cyfranogiad Cleifion (PPP) - gan gynnwys diffyg mynediad at ddehonglwyr ar adegau allweddol mewn gofal, gofyn i'r teulu i ddehongli, cael eu heithrio o drafodaethau clinigol allweddol, a llythyrau apwyntiad anhygyrch, wedi'u hesgoli a gofynnwyd yn ffurfiol iddynt gael eu cydnabod fel sbardunau diogelu o fewn prosesau perthnasol y Bwrdd Iechyd.

Mae Llais wedi cynorthwyo aelodau o'r gymuned pobl Fyddar i roi atborth uniongyrchol ar lythyrau apwyntiad y Bwrdd Iechyd. Mae'r atborth hwn wedi nodi rhwystrau penodol o fewn cyfathrebu ysgrifenedig, ac wedi llywio gwelliannau i eiriad, fformat, a hygyrchedd cyffredinol y llythyrau, gan helpu i sicrhau bod cyfathrebu'n diwallu anghenion arwyddwyr Iaith Arwyddion Prydain byddar yn well.

Ar y cyfan, mae'r gwaith hwn yn dangos symudiad parhaus o wrando i weithredu, ac yn adlewyrchu cynnydd tuag at ddull mwy cyson, cynhwysol, sy'n canolbwyntio ar y person, o ofalu am arwyddwyr Iaith Arwyddion Prydain byddar ar draws Gwent.

# Diolch

Diolch i bawb a gymerodd yr amser i rannu eu barn a'u profiadau gyda ni am eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a rhannu eu syniadau gyda ni.

# Atborth

Carem glywed beth yw eich barn am y cyhoeddiad hwn, ac unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallem fod wedi'i wella, fel y gallwn ddefnyddio hyn i wneud ein gwaith yn y dyfodol yn well.

# Manylion cyswllt


Llais Rhanbarth Gwent,
Tŷ Raglan,
Parc Busnes Llantarnam,
Cwmbrân,
NP44 3AB.

Ffôn: 01633 838516
E-bost:
gwentenquiries@llaiscymru.org
Gwefan: www.llaiscymru.org
Facebook: @gwentllais
Twitter: Llais_wales